MAE'R "BYD FEL Y MAE YN DOD I BEN"

Nodyn i'r siaradwr:
Helpa'r gynulleidfa i ddeall arwyddocâd cyflwr ansefydlog y byd, eglura beth fydd yn digwydd yn y dyfodol agos, ac anoga bawb i weithredu er mwyn goroesi

MAE'R CAN MLYNEDD DDIWETHAF WEDI GWELD LLAWER O NEWIDIADAU (3 mun.)

Mae datblygiadau ym meysydd technoleg, gofal iechyd, addysg, trafnidiaeth, a hawliau dynol wedi dod â lles i lawer o bobl

Ar y llaw arall, mae'r dirywiad mewn gwerthoedd moesol a'r cynnydd mewn lefelau trosedd, camddefnyddio cyffuriau, ysgariad, chwyddiant, a therfysgaeth wedi effeithio ar filiynau o bobl

Yn wir, mae'r "byd fel y mae yn dod i ben" **[Darllena 1 Corinthiaid 7:31]**

Yn yr iaith wreiddiol, mae'r apostol Paul yn defnyddio ymadrodd sy'n cymharu'r byd i lwyfan mewn theatr. Fel yr actorion mewn drama, mae arwyr gwleidyddol, crefyddol, a diwylliannol yn dod i'r amlwg, yn chwarae eu rhan, ac yna, yn gadael y llwyfan i bobl eraill (*w04*-E 2/1 18-19 ¶2-4)

DECHREUODD AMSER Y DIWEDD I'R BYD HWN YM 1914 (9 mun.)

Yn y canrifoedd cyn 1914, roedd newidiadau fel arfer yn digwydd yn araf

Mae addysgwyr a haneswyr yn cydnabod bod newidiadau wedi cyflymu'n aruthrol ers 1914 (*w04*-E 2/1 20 ¶9; *w01*-E 6/1 5 ¶4)

Yr un sy'n gyfrifol am gyflwr dirywiol y byd, fel dyn drwg y tu ôl i'r llenni, yw Satan y Diafol (Dat 12:7-9, 12)

Mae cyflwr y byd yn arwydd o bresenoldeb anweledig Iesu Grist ac yn dangos bod diwedd y drefn hon yn prysur nesáu (Mth 24:3)

Proffwydodd Iesu am y trychinebau a fyddai'n arwydd o'r dyddiau diwethaf (Lc 21:10, 11; Dat 6:2-8; *w14*-E 2/1 5-7)

DIGWYDDIADAU SY'N ARWAIN AT DDYDD MAWR JEHOFA (15 mun.)

Yn ôl proffwydoliaeth y Beibl, bydd mwy o newidiadau pwysig yn digwydd yn fuan

Daw dydd Jehofa yn annisgwyl oherwydd mae y rhan fwyaf o bobl yn canolbwyntio ar eu diddordebau personol ac yn methu credu y bydd Duw yn ymyrryd ym mhethau'r ddynoliaeth (Mth 24:37-39; 2Pe 3:3, 4)

Yn y cyfnod sy'n arwain at ddydd Jehofa, bydd y cenhedloedd yn cyhoeddi heddwch a diogelwch mewn rhyw ffordd arwyddocaol
[Darllena 1 Thesaloniaid 5:1-3] (*w13*-E 11/15 12-13 ¶9-12; *w12*-E 2/1 9)

Yn fuan wedyn, bydd dydd Jehofa yn dechrau pan fydd elfennau gwleidyddol y byd yn cymryd camau i ddinistrio gau grefydd (Dat 17:1, 3, 5, 15-17; *w12*-E 9/15 3-5 ¶3-7)

Yr ymosodiad ar gau grefydd yw dechrau'r gorthrymder mawr (Mth 24:21)

Wedi hynny, "yn sydyn bydd dinistr yn dod" ar yr elfennau gwleidyddol ac ar y rhai sy'n gwrthwynebu Teyrnas Dduw (Da 2:44; Dat 19:11-15)

Mae'r ddrama ar lwyfan y byd wedi cyrraedd yr act olaf

Bydd Jehofa yn dod â'r llen i lawr ar bobl anufudd

Uchafbwynt dydd Jehofa fydd rhyfel Armagedon (Dat 16:14, 16)

Caiff y drefn ddrwg hon ei dinistrio'n llwyr ynghyd â'i hysbryd a'i ffyrdd annuwiol (2Pe 3:10)

Wedi hynny, caiff Satan ei fwrw i'r pydew diwaelod (Dat 20:1-3)

Caiff y ddaear ei glanhau, a bydd pawb sy'n caru Jehofa yn gweld newidiadau arbennig

PEIDIWCH AG OFNI, A RHOWCH EICH FFYDD YN ADDEWIDION JEHOFA (3 mun.)

Anogwn bawb sy'n dyheu am fyd newydd a chyfiawn i astudio addewidion Duw ac i roi ffydd yn ei Air ysbrydoledig

Cyn bo hir bydd pethau ar lwyfan y byd hwn yn newid er gwell ac am byth

Bydd rhyfel, trosedd, trais, a therfysgaeth yn dod i ben (Sal 37:10, 11; 46:9)

Bydd pob afiechyd wedi mynd (Esei 33:24)

Bydd pawb sy'n gwasanaethu Jehofa yn ffyddlon yn byw am byth (1In 2:17)

Byddwch yn un o'r rhai sy'n dangos eu ffydd yn addewidion Jehofa drwy "fyw bywydau glân sy'n rhoi Duw yn y canol" (2Pe 3:11-13)

[Glyna'n agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadw at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School,* tt. 52-55, 166-169]

© 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania